# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 1 Mehefin 2015 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig.**

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Cyng. Lyn Jones *(Cadeirydd)* | Cyng. Des Davies |
| Cyng. Auriol Williams | Cyng. Dilwyn Jenkins |
| Cyng. Huw Jones | Cyng. Islwyn Iago |
| Cyng. Eurig Lloyd | Cyng. Llinos Price |
| Mrs Hildreth Owen *(Clerc)* | Cyng. Haydn Lewis *(aelod lleol y Cyngor Sir) (cyrr. 8.15)* |

**1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Lyn Jones, bawb i gyfarfod mis Mehefin. Llongyfarchodd y Clerc ar ddod yn famgu i'w hŵyr bach, Ianto, yn Seland Newydd.

**1(a) Cyflwyniad "Awel Deg Aberteifi": Argymhelliad i osod tyrbin gwynt ar dir Fferm yr Oernant.**

Croesawodd y Cadeirydd y ddau gynrychiolydd o Awel Deg Aberteifi i'r cyfarfod a gwahoddodd Ms Sarah Wright i ddechrau'i chyflwyniad. Rhoddodd gefndir cynhwysfawr i'r fenter a dywedodd mai'r nod yw cynorthwyo'r ardal i ddibynnu ar ei hynni ei hun cymaint â phosib drwy greu prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned. Cyfrannwyd at y cyflwyniad hefyd gan Mr Peter Newland a dywedodd bod y cynllun i osod tyrbin gwynt ar dir Fferm yr Oernant ar gyfer tyrbin 500Kw gydag uchder i'r foth o 45m a 67m i flaen y llafn. Cyflwynir cais cynllunio i Gyngor Sir Ceredigion yn yr haf. Ychwanegwyd y gallai'r incwm o'r tyrbin helpu i ddatgloi ychydig o'r potensial hwnnw gan sicrhau mantais gymunedol i gynorthwyo prosiectau megis pwll nofio Aberteifi sydd yn awr tan fygythiad oherwydd toriadau'r cyngor sir. Dosbarthwyd mapiau a diagramau defnyddiol i'r aelodau er gwybodaeth yn ystod y cyfarfod.

Cynhelir ymwybyddiaeth o'r prosiect ar stondin wybodaeth tu allan i Neuadd y Dref, Aberteifi, ar foreau Sadwrn, 6 a 13 Mehefin o 10.00-12.00 canol dydd gyda chyfarfod yn Theatr Byd Bychan ar 10 Mehefin.

Yn dilyn sesiwn o amgylch y bwrdd, diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad pwrpasol dros ben.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Ann Stokoe.

**3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Mai yn gywir.

**4. Datgelu buddiannau personol:**

Y Cyng. Dilwyn Jenkins a'r Cyng. Islwyn Iago (Cais cynllunio Min-y-môr / Tŷ-gwyn, Mwnt)

**5. Materion yn codi:**

(a) **Is-Gadeirydd Cyngor Cymuned y Ferwig 2015-16:** Mae'r aelodau yn bles bod y Cyng. Ann Stokoe wedi derbyn yr is-gadeiryddiaeth am y flwyddyn gyfredol.

(b) **I-pad i Ysgol Gymunedol Penyparc:** Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl pris am y teclyn.

**6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | Dim |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015. | Dim |
| Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion | £100.00 |
| Cymorth ar Bopeth | £50 |
| *Gofal mewn Galar* | £50 |
| *Gŵyl Fawr Aberteifi* | £150 |
| Theatr Gydweithredol Troedyrhiw | Dim |
| Ysgol Gymunedol Penyparc | Dal i aros am bris i-pad. |
| Hen Ysgol y Ferwig | I'w drafod ym mis Hydref 2015 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc | £150 |
| Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc | £150 |
| Adran yr Urdd Penyparc | £150 |

*(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)*

## 7. Cynllunio:

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| A150183 | Min-y-môr / Tŷ Gwyn, Mwnt: "Variation of condition 2 of planning permission A110673 (amended plans)" | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |
| A150316 | Login, Ferwig: "Erection of an agriculture grain and storage shed" | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |
| A150328 | Hafdir, Gwbert: "Outline planning application with all matters reserved for a single dwelling" | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |
| A150271 | Plot 15 Clos y Gwyddil, Ferwig: "Erection of a dwelling" | Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |

## 8. Materion Ariannol.

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mai 2015) | 101445 | £75.60 |
| Cyflog y Clerc (Mai 2015) | 101446 | £302.72 |
| Costau'r Clerc (Mai 2015) | 101447 | £52.28 |
| Mr Ken Griffiths (Archwilydd Mewnol y Cyngor) | 101448 | £125.00 |
| Cyng. Lyn Jones (Lwfans y Cadeirydd am 6 mis) | 101449 | £150.00 |
| Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc (Glanhau'r Ystafelloedd Newid) | 101450 | £220.32 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu

**Materion ariannol eraill:** Dim

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | Gofal Mewn Galar | Llythyr o ddiolch a derbynneb am rodd ariannol tan adran 137. | Nodwyd |
| 25 | Tai Canolbarth Cymru | Papur ymgynghori: Rhan-berchenogaeth cartref gyda budd rhwyd ddiogelwch. | Cytunwyd i'r Clerc anfon y sylwadau fel a welir yn eitem [25] isod. |
| 26 | Gŵyl Fawr Aberteifi | Derbynneb am rodd ariannol tan adran 137. | Nodwyd |

[25] **Sylwadau Cyngor Cymuned y Ferwig ar y syniad o ran berchenogaeth cartref.** Mae'r Cynghorwyr yn teimlo ei bod yn beth da caniatáu i denantiaid brynu cyfran o'u heiddo. Maent hefyd yn teimlo bod y canlyniad o ddarparu mwy o gartrefi yn werth gweithredu arno pe bai angen. Teimlir y dylai'r flaenoriaeth gael ei rhoi i bobl leol fanteisio ar y cynllun. Byddai o fantais i gymdeithasau tai eraill ledled Cymru ddefnyddio'r cynllun yma. Yn olaf, cytunodd y Cyngor na ddylai unrhyw fath o eiddo gael ei eithro o'r cynllun.

## 10. Materion Eraill:

(a) **Arwydd "Cornel" ger Gwesty'r Flat Rock, Gwbert:** Roedd yr arwydd ger y maes parcio yn goleddfu tua 45 gradd wedi i gerbyd ei daro. Anfonwyd yr wybodaeth ymlaen at Adran Briffyrdd y Cyngor Sir; mae'r gwaith bellach wedi ei gwblhau.

(b) **Penodi Aelod o'r Cyngor i Fwrdd Llywodraethol Ysgol Gymunedol Penyparc:** Mae'r Cyng. Eurig Lloyd wedi ei enwebu i gynrychioli'r Cyngor ar fwrdd llywodraethwyr yr ysgol.

(c) **Llwybr Beic o fynedfa "Cardigan Sand & Gravel" i Heol Caemorgan:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am ddiweddariad yn ymwneud â gorffen y llwybr beiciau.

(d) **Gordyfiant ar gyffordd Feidr Tywod, Penyparc a'r ffordd A487:** Derbyniwyd cwynion oddi wrth aelodau'r cyhoedd am y gordyfiant ar gyffordd ddeheuol Feidr Tywod sydd yn amharu ar weledigrwydd modurwyr i'r ffordd fawr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r adran briffyrdd.

(e) **Superfast Cymru:** Gofynnwyd i'r Clerc hel gwybodaeth am ddiweddariad y gwasanaeth yn y gymuned.

(f) **Hysbysfwrdd Penyparc:** Y Clerc i gysylltu â Mr Dyfed Symmons ynglŷn â thrwsio'r hysbysfwrdd.

(g) **Baw Ceffyl ar y llwybr beiciau o bentre Penyparc hyd yr Ysgol:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r heddlu ynglŷn â defnydd y llwybr gan geffylau a merlod.

(h) **Marciau llinellau parcio tu allan i Glwb Cychod Teifi yn Patch:** Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ailfarcio llinellau'r mannau parcio.

(i) **Peipen fwg (egsost) Lorri:** Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r beipen fwg sydd wedi ei gadael ar ymyl y ffordd yr ochr uchaf i Garnhebogydd, Gwbert.

**11. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf:** 6 Gorffennaf (YB)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2015**

7 Medi (F) 5 Hydref (YB) 2 Tachwedd (F) 7 Rhagfyr (YB)

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2016**

4 Ionawr (F) 1 Chwefror (YB) 7 Mawrth (F) 4 Ebrill (YB) 9 Mai (F) 6 Mehefin (YB) 4 Gorffennaf (F) 5 Medi (YB) 3 Hydref (F) 7 Tachwedd (YB) 5 Rhagfyr (F)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# <u>CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL</u>

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 1 June, 2015 at 7.30pm**
**at Hen Ysgol y Ferwig**

**Present**

| | |
|---|---|
| Cllr Lyn Jones *(Chairman)* | Cllr Des Davies |
| Cllr Auriol Williams | Cllr Dilwyn Jenkins |
| Cllr Huw Jones | Cllr Islwyn Iago |
| Cllr Eurig Lloyd | Cllr Llinos Price |
| Mrs Hildreth Owen *(Clerk)* | Cllr Haydn Lewis *(Local member County Council)* *(arr. 8.15)* |

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Lyn Jones, welcomed everyone to the June meeting. He congratulated the Clerk on becoming a grandmother to a new born grandson, Ianto, in New Zealand.

**1(a) Presentation "Awel Deg Aberteifi": A proposal to place a wind turbine on the land of Oernant Farm.**

The Chairman welcomed representatives of Awel Deg Aberteifi to the meeting and invited Ms Sarah Wright to commence the presentation. She gave a comprehensive background to the venture and stated that one of the aims was to help the surrounding district become as self-reliant in energy as possible by creating community-owned renewable energy projects. Mr Peter Newland continued the presentation and stated that the plan for the Oernant Farm wind turbine would be for a 500Kw turbine with a height to hub of 45m, 67m to blade tip. A planning application will be submitted to Ceredigion County Council in the summer. It was stated that the area is blessed with huge potential for renewable energy generation with the income from the project able to unlock some of the potential and provide a community gain for local community projects including the local swimming pool at Cardigan which has experienced considerable cuts in its funding from the county council. Informative diagrams and photographs were distributed for members' information.
An information stall will be displayed outside the Guildhall, Cardigan, on Saturdays, 6 and 13 June, from 10.00am-12.00 noon with a meeting scheduled to be held at the Small World Theatre on 10 June.
Following a question and answer session, the Chairman thanked the Awel Deg Aberteifi representatives for their most useful presentation.

2. **Apologies for absence:** Cllr Ann Stokoe.

3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the minutes for the May meeting are correct.

4. **Declaration of personal interests:** Cllrs Dilwyn Jenkins and Islwyn Iago (Planning Min-y-môr / Tŷ-gwyn, Mwnt)

5. **Matters arising:**
   (a) **Vice-Chair of Ferwig Communuity Council for 2015-16:** Members were pleased that Cllr Ann Stokoe had accepted the office of vice-chair for 2015-16.
   (b) **I-pad for Ysgol Gymunedol Penyparc:** The Council is staill awaiting prices for the I-pad..

6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

| | |
|---|---|
| Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen | Nil |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015. | Nil |
| Ceredigion Young Farmers' Clubs | £100 |
| Citizens' Advice Bureau | £50 |
| *Cruse Bereavement Care* | £50 |
| *Gŵyl Fawr Aberteifi* | £150 |
| Theatr Gydweithredol Troedyrhiw | Nil |
| Ysgol Gymunedol Penyparc | Awaiting quote for i-pad for pupils |
| Hen Ysgol y Ferwig | To be discussed October 2015 |
| PTA Ysgol Gymunedol Penyparc | £150 |

| | |
|---|---|
| Penyparc YFC | £150 |
| Adran yr Urdd Penyparc | £150 |

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

## 7. Planning:

| *Application No.* | *Address and Purpose* | *Council Decision* |
|---|---|---|
| A150183 | Min-y-môr / Tŷ Gwyn, Mwnt: "Variation of condition 2 of planning permission A110673 (amended plans)" | Council have no objections |
| A150316 | Login, Ferwig: "Erection of an agriculture grain and storage shed" | Council have no objections |
| A150328 | Hafdir, Gwbert: "Outline planning application with all matters reserved for a single dwelling" | Council have no objections |
| A150271 | Plot 15 Clos y Gwyddil, Ferwig: "Erection of a dwelling" | Council have no objections |

## 8. Financial Matters.

**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| HM Revenue and Customs: Clerk's income tax (May 2015) | 101445 | £75.60 |
| Clerk's salary (May 2015) | 101446 | £302.72 |
| Clerk's expenses (May 2015) | 101447 | £52.28 |
| Mr Ken Griffiths (Council's Internal Auditor) | 101448 | £125.00 |
| Cllr Lyn Jones (Chairman's allowance for six months) | 101449 | £150.00 |
| Penyparc YFC (Cleaning of changing rooms) | 101450 | £220.32 |

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Auriol Williams that the above bills be paid.

**Other financial matters:** None

## 9. Correspondence:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | Cruse Bereavement Council | Letter of thanks and receipt for grant received under Section 137. | Noted |
| 25 | Mid-Wales Housing | Consultation Paper: Shared Ownership with the Benefit of a Safety Net. | See Council's observations [25] below |
| 26 | Gŵyl Fawr Aberteifi | Receipt for grant received under Section 137. | Noted |

[25] **The observations of Ferwig Community Council regarding the idea of shared ownership of homes**. Councillors are of the sound belief that allowing tenants to buy a share of their property is a good idea. They also feel that the outcome of providing more homes is worth pursuing and believe that local people should have priority. Members added that the scheme should be adopted acros Wales by other housing associations. Finally, it was agreed that no type of property should be excluded from the scheme.

## 10. Other Matters:

(a) **The "Corner" road sign near the Flat Rock car park in Gwbert:** The sign post was slanting at approximately an angle of 45 degrees after a vehicle collision. The information has been forwarded to the County Councl highways department; the problem has now been rectified.

(b) **Nomination of a member to represent the Council on the Ysgol Gynradd Penyparc board of governors:** Cllr Eurig Lloyd has been nominated to serve on the board.

(c) **Cycle Path from the entrance of Cardigan Sand & Gravel to Caemorgan Road:** The Clerk was asked to request an update from the County Council highways department regarding the proposed completion of the cycle path.

(d) **Overhanging branches at the entrance to Sandy Way, Penyparc, from the A487 highway:** Complaints have been received from motorists that the overhanging branches are impeding the visibility for motorists leaving the estate onto the highway.

(e) **Superfast Broadband:** The Clerk was asked to seek the latest information regarding this service.

(f) **Penyparc Notice Board:** The Clerk was asked to request Mr Dyfed Symmons to repair the notice board.

(g) **Horse mess on the cycle path from Penyparc village to the School:** The Clerk was asked to contact the community police officer regarding the prohibition of the use of the pathway by horses and ponies.

(h) **Road markings of parking bays at Patch:** It was agreed that the Clerk requests the highway department to repaint the parking bay lines at the entrance to the Teifi Boat Club in Patch.

(i) **Abandoned lorry exhaust:** The Clerk is to inform the highways department of the danger caused by an abandoned lorry exhaust left on the roadside near Garnhebogydd, Gwbert.

**11. Date of the next Ordinary Meeting of the Council:** 6 July, 2015 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

**Council Meetings in 2015:**

7 September (F) 5 October (YB) 2 November (F) 7 December (YB)

**Council Meetings for 2016**

4 January (F) 1 February (YB) 7 March (F) 4 April (YB) 9 May (F) 6 June (YB) 4 July (F) 5 September (YB)
3 October (F) 7 November (YB) 5 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting